Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn yr **Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 11 Tachwedd 2019** am **8:00p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Gavin Harris, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

28. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jabez Oakes.

29. DATGAN BUDDIANNAU
Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

30. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019 yn gywir.

31. MATERION YN CODI
Derbyniwyd llythyr diolch oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych am y sylwadau ynghylch y safleoedd ymgeisiol yn Rhuthun yn y Cynllun Datblygu Lleol.

32. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2019/0568 – Tir yng Nglasdir, Rhuthun – Manylion cynigion gosod, rheoli a chynnal a chadw ardaloedd gwagle agored a gyflwynwyd yn unol ag amod 7 caniatâd cynllunio 02/2018/0889 – Cymeradwywyd
02/2019/0723 – Capel Tabernacl, Stryd y Ffynnon, Rhuthun - Torri a gwaith ar goed yn Ardal Gadwraeth Rhuthun – Caniatawyd
02/2019/0729 - Rugog, Ffordd Llanfair, Rhuthun - Adeiladu estyniad i'r annedd – Caniatawyd
02/2019/0799 – Hafan Deg, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Manylion mecanwaith i gydymffurfiol gyda pholisïau a chanllawiau'r Cyngor yng nghyswllt darpariaeth gwagle agored a gyflwynwyd yn unol ag amod 7 caniatâd cynllunio 02/2017/1113 – Cymeradwywyd
02/2019/0728 – 64 Stryd Mwrog, Rhuthun - Adeiladu estyniad i'r annedd – Caniatawyd
02/2019/0618 – 52 Erw Goch, Rhuthun - Adeiladu estyniadau i'r annedd - Caniatawyd
02/2019/0749 – Alltwen, Galltegfa, Rhuthun - Adeiladu estyniad deulawr yng nghefn yr annedd - Caniatawyd
02/2018/0101 – Ysgol Brynhyfryd, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun – Gosod ffens diogelwch - Caniatawyd

33. CEISIADAU CYNLLUNIO
Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2019/0820 – Tir oddi ar yr A525 rhwng Ocsiwn Rhuthun a Lôn Gwernydd, Rhuthun
Arddangos 3 arwydd ffasgia (wedi'u goleuo'n fewnol), 1 arwydd finyl (heb ei oleuo), 1 arwydd totem (wedi'i oleuo'n fewnol) ac 1 arwydd lefel isel (heb ei oleuo)
02/2019/0842 – 2 Erw Goch, Rhuthun
Adeiladu estyniad i'r annedd, gosod wyneb newydd ar y dreif sy'n bodoli eisoes a thirlunio cysylltiedig
02/2019/0831 – 17 Ffordd Edern, Rhuthun
Gwaith i goed sy'n rhan o Orchymyn Cadw Coed
02/2019/0906 – Gwynfryn, Stryd Cerrig, Llanfwrog, Rhuthun
Adeiladu estyniad i'r adeilad amaethyddol sy'n bodoli eisoes
02/2019/0894 – Tŷ'n y Wern, Ffordd Corwen, Rhuthun
Uwchraddio'r llinell drydan uwchben
02/2019/0922 – Awelon, Ffordd yr Ysgol, Rhuthun
Gwaith i goed yn Ardal Gadwraeth Rhuthun

02/2019/0856 – Tir gyferbyn â Neuadd Ambiwlans Sant Ioan, Stryd y Prior, Rhuthun
Felling of 3 beech trees within Ruthin Conservation Area.
Roedd yr aelodau'n bryderus ynghylch colli'r coed aeddfed hyn gyda chysylltiadau hanesyddol â'r teulu Cornwallis-West. Gofynnwyd a ystyriwyd dewisiadau eraill e.e. adeiladu wal gynnal newydd o flaen y wal sy'n bodoli eisoes. Mae hon yn ffordd un cyfeiriad yn unig eisoes, felly ni fyddai culhau'r ffordd yn creu problemau. Hefyd a oes gan y Cyngor Sir bolisi bod ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio i blannu coed yn lle rhai sy'n cael eu torri?

02/2019/0895 – Tir yng Nglasdir, Rhuthun
Adeiladu 77 annedd fforddiawyd ynghyd â mynediad, gwagle agored a gwaith cysylltiedig.
PENDERFYNWYD: *gwahodd Mr Peter Lloyd, PL Planning, asiant ar ran yr ymgeisydd, i ddod i gyfarfod y Cyngor llawn ar 25 Tachwedd 2019 a chyflwyno sylwadau yn dilyn y cyfarfod.*

34. SIARTER CYDYMFFURFIAETH CYNLLUNIO DRAFFT CYNGOR SIR DDINBYCH
Dosbarthwyd copi o'r Siarter Cydymffurfiaeth Cynllunio drafft i'r aelodau. Roedd yr aelodau'n croesawu'r ddogfen a chynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd yn unfrydol dderbyn y Siarter arfaethedig.
PENDERFYNWYD: *derbyn y Siarter Cydymffurfiaeth Cynllunio drafft.*

27. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 2 Rhagfyr 2019 am 8pm.*